**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Dafydd Elis-Thomas AC
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Llywodraeth Cymru

19 Chwefror 2018

Annwyl Julie a Dafydd,

**Ofcom: Memorandwm Dealltwriaeth Drafft**

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar y Memorandwm Dealltwriaeth drafft rhwng Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ofcom. Cafodd y mater ei drafod gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 12 Chwefror 2018, gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 14 Chwefror a chan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 15 Chwefror.

Nododd y Pwyllgorau mai Gweinidogion Cymru fydd yn arwain y gwaith o benodi Aelod Cymru o Fwrdd Ofcom. Rydym yn credu y byddai'n werthfawr iawn pe bai un o Bwyllgorau'r Cynulliad yn cynnal gwrandawiad cyn penodi'r ymgeisydd. Er na fyddai gan y gwrandawiad y pŵer i roi feto ar y penodiad, byddai'n galluogi'r Aelodau i gadarnhau a chefnogi'r penodiad, neu i dynnu sylw at unrhyw bryderon posibl y dylid ymdrin â nhw. Rydym yn credu y byddai'n ychwanegu tryloywder ac atebolrwydd i'r broses.

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Dealltwriaeth yn ymrwymo i'r gofyniad i gyfrifon Ofcom gael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae pob Pwyllgor yn gefnogol i'r safbwynt hwn ac yn cytuno y dylid ei ystyried fel rhan o'r gwaith o graffu ar gyfrifon blynyddol y bydd pob un o bwyllgorau'r Cynulliad yn ymgymryd ag ef.

Yn gywir,

Cadeirydd y Pwyllgor | Cadeirydd y Pwyllgor | Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor

cc: Elin Jones AM, Llywydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565